YR YMOFYNYDD.

Misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1901. [RHIF 1.

ANERCH Y GOLYGWYR.

GYDA chryn lawer o bryder yr ydym wedi cydsynio a'r cais i ymgymeryd a golygyddiaeth YR YMOFYNYDD. Pan ddaeth y cais atom gyntaf, ein tueddiad, ar gyfrif amryw resymau, oedd nacâu. Perthyn i'r swydd gyfrifoldeb mawr; ac y mae yn gofyn llawer iawn o amser cyn cyflawni'r dyledswyddau a berthyn iddi i foddlonrwydd; ac oherwydd diffyg amser, heb son am ddiffygion eraill, ofnem nas gallem wneyd y gwaith mor drwyadl ac effeithiol ag y dymunem. Dim ond yr addewidion lluosog a pharod o gynorthwy, yn nghyd a'r anogaeth a dderbyniasom gan ychydig gyfeillion ag y gosodem gryn bwys ar eu barn ac ymddiriedaeth drylwyr yn eu haddewidion, yn unig fedrai ein darbwyllo i gydsynio.

Cychwynodd YR YMOFYNYDD gyntaf yn 1847, ac y mae felly wedi pasio y 53ain flwyddyn o'i oedran. Er y flwyddyn uchod mae wedi parhau i ymweled a'n cartrefloedd yn fisol, gyda'r eithriad o un neu ddau gyfnod byr o seibiant; ac y mae erbyn hyn wedi enill iddo ei hun le gwresog yn ein mynwesau. Yn ystod y cyfnod hwn, hefyd, mae wedi bod dan ofal dynion parchus a galluog, enwau y rhai ydynt o hyd yn anwyl iawn genym. A chredwn ei fod wedi gwneyd gwaith gwerthfawr a defnyddiol i ni fel cangen fechan o'r Eglwys Gristionogol.

Rhwng adeg ei gychwyniad a diwedd y ganrif mae Cymru wedi myned drwy chwyldroad mewn rhagor nag un ystyr.

Mae wedi ymgodi o'r cyflwr iselaf o anwybodaeth ac amddifadrwydd o gyfleusderau gwybodaeth i gyflwr addysgol uchel ac anrhydeddus. Yn 1847, yr oedd yr ysgolion yn anaml, nid oedd yr addysg a gyfrenid yn hyny o ysgolion oedd ar gael ond gwael a diddefnydd i'r eithaf. Ond o'r flwyddyn hono hyd yn awr mae Cymru wedi graddol esgyn o ris i ris, fel, erbyn diwedd y ganrif, y mae ysgolion wedi eu sefydlu yn mhob cymydogaeth, ac addysg dda ac

effeithiol (nid heb le i fod lawer yn well), yn cael ei chyfranu ynddynt. Hefyd, mae genym gyfundrefn o addysg uwchraddol na cheir yn aml ei chyffelyb. Mae hyn hefyd wedi ei wneyd yn ystod yr 50—yn wir gellir dyweyd 30—mlynedd diweddaf.

Mae Cymru wedi cyfnewid bron yn hollol ei chymeriad gwleidyddol yn nghwrs yr un cyfnod,—pa un ai er gwell, ynte er gwaeth, ni a adawn i'r darllenydd benderfynu. Mae ei llenyddiaeth wedi enill nerth. Mae'r Iaith Gymraeg yn cael ei pharchu yn fwy nag erioed; ac y mae'r Genedl Gymreig, yn lle bod yn genedl ddirmygedig a thlawd, fel y cyfrifid hi gan estroniaid haner canrif yn ol, a llai na hyny, wedi enill iddi ei hun barch ac edmygedd cenhedloedd eraill. Er dwyn y cyfnewidiadau hyn oddiamgylch, mae llawer wedi gweithio yn galed, wedi dioddef gwawd a dirmyg, ac wedi aberthu llawer iawn.

Efallai mae'r cylch lle y gwelir lleiaf o gynydd, yn y cyfeiriad y dymunem ni weled cynydd, yw'r cylch crefyddol. Cydnabyddwn, gyda diolchgarwch, y gwaith ardderchog sydd wedi ei wneyd gan y gwahanol enwadau crefyddol yn Nghymru yn ystod y ganrif sydd newydd derfynu, ac edmygwn y sel a'r ymroddiad gyda'r rhai y cyflawnasant y gwaith hwn, ac ni ddymunem weled eu sel a'u hymroddiad yn lleihau ychwaith. Ond er hyn, dymunem weled syniadaeth dduwinyddol ein cenedl yn cael ei dyrchafu ychydig; yn enwedig dymunem weled mwy o yspryd rhyddfrydig a goddefol yn ffynu rhwng y gwahanol adranau o'r Eglwys Gristionogol yn Nghymru.

Mae yn rhy gynar eto i ddisgwyl fod ffrwyth y gyfundrefn addysgol gymharol berffaith a feddwn yn dod i'r golwg. Ond, nid amheuwn na ddaw i'r golwg yn ystod y ganrif newydd, ac mai ei effaith, neu un o'i effeithiau, fydd creu yspryd mwy rhyddfrydig a brawdol rhwng yr eglwysi, lladd yr yspryd enwadol sydd wedi bod mor ddinystriol i bob gwir gynydd, a pheri i Gristionogion ddeall mai nid y rhai sydd yn glynu yn dyn wrth yr hen gredoau ydynt eiddo Crist, ond y rhai yn hytrach y mae ei yspryd yn eu calonau.

Hyn ydyw ein gobaith ni, fodd bynag. A gwneyd yr hyn a allwn tuag at ddwyn hyn oddiamgylch fydd un rhan o'n gwaith yn ystod y ganrif sydd newydd wawrio.

Perthyn i'n cenedl fechan hanes anrhydeddus; ac wrth ddarllen yr hanes hwn, a meddwl am wrhydri ein cyndeidiau—nid gwrhydri milwrol i gyd, sydd yn gyffredin yn apelio gryfaf at y natur ddynol, ond gwrhydri o natur uwch—pwy all lai na theimlo tân gwladgarwch yn cael ei enyn yn ei fynwes? a phwy, ag sydd wedi teimlo hyn, a fedr beidio mynwesu'r gobaith fod dyrchafiad yn mhob cyfeiriad yn aros ein cenedl yn y dyfodol? Hyn ydyw ein gobaith ni, fodd bynag; ac er ein bod yn blaid fechan, eto, pa beth bynag a geisiwn wneyd, ni a'i gwnawn, oherwydd ein bod yn credu ei fod yn llesiol a bendithiol i'n cenedl. Yn mhob ymgais a wneir genym i ddwyn ein hegwyddorion—egwyddorion ydynt yn cydfyned ag eiddo'r Iesu ei hun, fel y credwn ni—i sylw ein cenedl, hyn ydyw ein hamcan.

A ydyw yn ormod i ni ddisgwyl y bydd i'r YMOFYNYDD chwareu rhan mwy blaenllaw nag erioed yn y gwaith o ddwyn i sylw ein cydgenedl egwyddorion y grefydd a broffeswn? Gwir nad yw cylch ei wasanaeth, ar y goreu, ond cyfyng. Nid ydym ond ychydig mewn nifer, ac y mae genym lawer o ragfarnau i weithio yn eu herbyn. Ond, er hyn, gydag ychydig o ymroddiad a chydweithrediad, ac ychydig yn rhagor o'r yspryd cenhadol, gellid gwneyd cylch ei wasanaeth yn llawer eangach nag ydyw.

Nid ydym ni, fel golygwyr, mor hunanol a meddwl, nac mor ymffrostgar ag addaw, y gallwn *ni ein hunain* lwyddo i wneyd cylch ei wasanaeth a'i ddylanwad yn helaethach nag ydyw, nac ychwaith i'w wneyd yn gyhoeddiad teilwng o honom ni fel eglwys, heb gynorthwy cyson a ffyddlawn ein llenorion, a'n dosparthwyr, a'n darllenwyr; ond gyda'r cynorthwy hwn, gwnawn ni ein goreu. Nis gallwn addaw rhagor na hyn.

Gwelir fod rhai cyfnewidiadau wedi eu gwneyd ynddo; gobeithiwn y rhoddant foddlonrwydd cyffredinol. Hefyd, bwriadwn roddi, yn fisol, golofn at wasanaeth y plant. Gobeithiwn y gallwn wneyd y golofn hon mor syml, fel y gall y plentyn ddeall yr oll o'i chynwys, ac mor ddyddorol, fel y bydd pawb yn troi ati y cyntaf peth. Efallai na lwyddwn yn hyn; ond dyma fydd ein hamcan. Bydd unrhyw awgrymiad i'r dyben o wella'r golofn hon, neu unrhyw ran o'r YMOFYNYDD, yn dderbyniol iawn.

Gyda hyn o sylwadau, ciliwn ni o'r neilldu, a rhoddwn le i eraill i draethu eu llên.

LLYTHYRAU CYFARCH I'R "*YMOFYNYDD.*"

[*Oddiwrth y Parch. Thomas Thomas, Y.H., Green Park.*]

CYCHWYNODD YR YMOFYNYDD gyntaf yn mis Awst, 1847, ac o'i ohebwyr achlysurol er yr amser hwnw, yr wyf yn tybied mai naill ai yr Hybarch Broffeswr D. L. Evans, neu fy hunan, yw yr henaf sydd yn awr yn fyw, ac ar gais cyfaill yr wyf gyda'r pleser mwyaf yn ysgrifenu ychydig linellau o longyfarchiad i'r misolyn bychan ar ei ymddangosiad ddechreu y ganrif yn 1901, a dywedaf, hawddamor iddo i fyw hyd ei therfyn, ond ni ellir disgwyl y bydd i'r un boneddigion fyw i'w arolygu am gymaint o amser.

Yn ddiamheu y mae YR YMOFYNYDD wedi bod o wasanaeth mawr i'r enwad mewn rhagor nag un ystyr, ac yr wyf yn hyderus y bydd

felly eto yn y dyfodol, trwy undeb a chydweithrediad y Golygwyr a'r Gohebwyr, yn nghyd a'r Derbynwyr. Nis gwn am yr un cyhoeddiad Cymreig arall mor rhydd a pharod i roi ei dudalenau i ohebwyr o wahanol olygiadau i gael traethu eu llên ar bynciau y dydd, ai gwleidyddol neu dduwinyddol. Mae yn wir mai dan nawdd yr Undodiaid y dygir ef allan, ond nid yw yn cael ei gaethiwo i wasanaethu un blaid yn fwy na'r llall. Disgwyliaf weled ynddo o bryd i bryd erthyglau o allu a gwerth ac o ddyddordeb cyffredinol. Yr wyf yn ddiolchgar i'r hen Olygwyr, y cyfryw o honynt ag sydd yn awr ar dir y byw, am eu llafur didâl yn nglyn a'r YMOFYNYDD ; ac nis gallaf lai na theimlo yn falch fod dau foneddwr ieuanc a galluog wedi addaw gwisgo'r *harness* dros ryw amser yn y dyfodol, gydag un boneddwr arall yn barod i gynorthwyo, os bydd taro ; felly, nid oes achos ofni na fydd y misolyn yn werth ei dderbyn a'i ddarllen.

Dymunaf iddo gylchrediad helaeth ; gohebwyr ddigon fel na byddo drudaniaeth mater, a thâl amserol i'r Dosparthwyr. Achwynai rhai personau weithiau fod YR YMOFYNYDD yn rhy ddrud. Wel, yn y Gyfres Newydd yr wyf yn deall mai'r pris fydd dwy geiniog y rhifyn —pris delir genym heb rwgnach am bethau hollol afraid. Ni fydd neb, gobeithiaf, yn gweled hyn yn ormod."

[*Oddiwrth y Parch. Dr. G. Vance Smith, Bowdon, diweddar Brifathraw Coleg Caerfyrddin.*]

"Though I am quite ignorant of the Welsh Language I can heartily sympathize with my friends of the Unitarian name in their desire to make known the principles of their Christian Faith, and to assist in removing the misapprehensions which so widely prevail respecting it, not only in Wales, but on a much larger scale in England. It is astonishing how little is really known on the subject, even among persons who are otherwise intelligent and fairly educated. Instances occur also, not only of such misunderstanding, but where even misrepresentation is freely, if unconsciously, employed respecting it, on the part of those who ought to manifest a more charitable spirit ; but who, taking no trouble to inform themselves correctly, may be said to earn for themselves the odium of wilfully speaking evil of the earnest religious belief of others.

A notable instance of this may be seen in a widely circulated volume ; I allude to the *Church Dictionary*, (tenth edition), published by Dr. Hook, sometime Dean of Chichester. Under the head "Unitarian" in that work, he explains this word as denoting "certain persons who do not worship the True God." When this strange and injurious mis-statement was brought to his notice, evidence being also sent to him that Unitarians are really "true worshippers" of the "Only True God," he declined to correct it. If it be altered since Dr. Hook's death, this is unknown to me ;

but from what I have learnt of the unenlightened prejudice which takes the place of knowledge on this subject in the minds of probably a majority of the Anglican Clergy, not to speak of other Ministers of religion around us, I cannot suppose that the gross mis-statement I have described has been removed from the *Church Dictionary*.

A further illustration of what I have said has recently occurred in the Lancashire town of Bury. A short time ago, the Vicar of this town thought it necessary to publish a strongly worded *protest* against the course taken by the Volunteer Regiment of which he happened to be Chaplain. Their offence was in accompanying the newly elected Mayor of the town to his usual place of worship, on the first Sunday after his election, the same being a Chapel of the Unitarian body. Those who worship there, he alleged, do not give equal glory to the "Father, Son and Holy Ghost." The same protest might be offered to the use of the New Testament. There is no instance throughout this Sacred Book in which "equal glory," in the form of Divine worship, is offered to the Almighty under any such threefold appellation. No instance whatever, and if the Vicar would take the trouble to examine the New Testament, or indeed, the whole Bible, for himself, he could not fail to see the correctness of this statement.

But, although such is the case, and Unitarians usually act in accordance with it, they nevertheless, rejoice to give the honour and glory which are due to them to Jesus Christ, and to God's Holy Spirit. This they certainly do, and wish to do; but they do not feel themselves justified in turning from Him whom Jesus himself in solemn prayer addressed as the "Only True God" (St. John, xvii, 3), to the worship of other objects, who are never presented to us in the Scriptures as equal objects of Divine worship. I have no doubt that the Unitarians of Bury are accustomed with all due care and reverence to bow down, as did Christ himself, in the worship of "the only God" (St. John v, 44: R. V.); and I should have thought that even a Vicar of Bury might have joined them in doing so. But, no! he could only issue his protest against it!

In the view then of such misunderstandings and misrepresentations as these, whether the latter be wilful or not, I am glad to welcome the continued publication of what is now the monthly Organ of the South Wales Unitarian Association. In that publication you are doing a good Christian work, and one that will be helpful and comforting to many individual members of our body, as well as useful in diffusing the much needed knowledge of the truth in the community around you."

[*Oddiwrth y Parch. W. Copeland Bowie, Ysgrifenydd y Gymdeithas Undodaidd, Llundain.*]

You ask me for a word of greeting for the new issue of your Welsh Magazine—YR YMOFYNYDD. I have long been familiar with it, though I humbly confess I cannot read a line of it, and I am more than doubtful about the correct pronunciation of its name. All the same, I heartily congratulate you on its promise of new and vigorous life. It is of great importance that the Unitarian cause should have a Magazine, printed in the ancient and honoured language of the people of Wales, which will stand as the representative of all that is progressive and good in the liberal religious thought and life of our time.

With heartiest wishes for its success."

AR Y TROTHWY.

GAN Y PARCH. R. J. JONES, M.A., ABERDAR.

GANWYD fy nhad yn 1802, ac felly bron ar drothwy y ganrif sydd ar ein gadael, a safai yno, megys y safaf finau yma, yn hollol anhyspys o'r hyn sydd gan Ragluniaeth i'w ddwyn i'r golwg yn mlynyddoedd y dyfodol. Ceisiwyd gan un o broffeswyr yr Almaen yn ddiweddar i anturio ar ddadguddiad o ddygwyddiadau y ganrif sydd o'i flaen. Atebodd, pe ceisiasai rhywun wneuthur peth tebyg oddiar drothwy y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, y buasai'n sicr o wneuthur asyn o hono ei hun ; ac nad oedd ganddo ef yr un bwriad i wneuthur dim mor ffol : ofer fyddai pob cais o'r fath. Ofer yn sicr pe ceisid manylu. Gwir i hen wr ddywedyd wrth fy nhad pan oedd tua chwech oed : "Ti fyddi di fyw, fy machgen i, i weled dynion yn teithio'r wlad wrth gefn tegidlau." Dyna wnawn ni heddyw pryd bynag y byddom yn myned gyda'r trên. Ond fe drodd y ganrif allan fyrdd a mwy o bethau na freuddwydiodd y pell-weledydd penaf ddim am danynt ar ei dechreu ; a thebyg ped awgrymid aml i un o honynt iddo, yr atebai nad oeddynt ond breuddwydion anmhosibl. Rhy anhawdd i neb heddyw ddychmygu beth fydd yn bosibl haner can' mlynedd i heddyw. Beth allasai'r mwyaf dysgedig yn 1800 wybod am bosibilrwydd y telegraff, y telephon, y phonograff, y gramophon, &c. Pe na byddai dim arall, yr oedd y syniad a fodolai'r pryd hwnw am natur ac ansawdd Mater yn ei gwneuthur yn anmhosibl i gredu y gallai Röntgen anfon ei belydrau, a gwneuthur pethau yn weladwy drwy wal ddwy droedfedd ; a Marconi, yr Eidalydd ieuanc, beri i'r eiddo yntau fyned ar eu taith heb un wifren drosglwyddol, yn

y fath fodd, nad yw yn cael na môr, na chlawdd, na cheryg yn rhwystr i'w blaenfynediad. Ceir allan yn y man eto fod yn mynwes y dyfodol ryfeddodau i'w dwyn i'r golwg, nad yw yn bosibl i ni heddyw ddychymygu dim am danynt, am fod y llwybr sydd yn arwain atynt, heb ei agor, ei ddigaregu a'i wastadhau. Yr annisgwyliadwy sydd yn dygwydd o hyd.

Yn hytrach, gan hyny, na phroffwydo, gadawer ini adolygu; a bydded maes ein henwad, yn benaf, yn faes ein hadolygiad.

Yr oedd fy nhad yn ddwy flwydd oed yn 1804, pan fu farw Dr. Priestley a Josiah Rees–dynion a adawsant argraff ddofn ac annileadwy ar fywyd a llenyddiaeth eu hoes. Y gweinidogion mwyaf blaenllaw gyda ni'r pryd hwnw oedd, D. Davies, Llwynrhydowen; Thomas Morgan, Blaengwrach; Thomas Davies, Cefncoed; David Oliver, Aberdar; Ben. Philips, St. Clears; a D. Davies, Castellnedd. Wedi adeiladu Pantdefaid a Chapelgroes yn 1802, dychwelodd Dr. Charles Lloyd (YMOFYNYDD, Ionawr 1894) o Loegr yn 1803; a'r flwyddyn hono cychwynodd John James ar ei yrfa hir, a ffrwythlawn ei chanlyniadau.

Wrth fwrw golwg yn ol dros flynyddoedd y ganrif, cawn fod rhai o'r pethau pwysicaf, fel arfer, yn gyfryw nad oes dim na phwyso na mesur arnynt. Ni ddeuant i gylch sylw mewn ystyr hanesyddol—y geni, y bedyddio, yr ysgolia, y priodi, y magu plant, y byw,—ie, dyna air mawr, gair pwysig,—y *byw*, bucheddu'n iawn; y marw, nod terfyn yr oll y tu yma; y gobeithio sydd yn calonogi, yn nerthu, yn cynorthwyo; y sylweddoli mewn profiad freuddwyd Ysgol Jacob, gyda'r naill ben yn ddiogel ar y ddaear, a'r llall yn gorphwyso ar ganllawiau'r nefoedd, a'r angylion yn esgyn ac yn disgyn ar hyd-ddi,—nefoedd a daear mewn cysylltiad a'u gilydd, ac egwyddorion y naill yn cyfarwyddo ymdrechion y llall; y pelldremu felly, hwnt i angeu a'r bedd. Hyn oll bob dydd, y bywyd tawel didwrw, y gwasanaeth rheolaidd, y dioddef dibaid, yr ymdrech diflino, y cynghori, y rhybuddio, y ceryddu, y cymeradwyo, y tristwch, y llawenydd, y gorfoledd—ie, y pethau hyn oll, ânt fel help i ffurfio cymdeithas pob oes, ond ni ddeuant i dudalenau yr hanesydd. Hwy ydynt, mewn gair, ddefnyddiau yr adeilad, ond nid y mwyaf amlwg, nid y rhai i dynu sylw.

Y pethau mwyaf amlwg mewn hanes yn codi megys Alpau uwch gwastadeddau'r byd, fe'u cynwysir mewn enwau cyffelyb i'r rhai hyn: Trafalgar, Waterloo, Navarino, Crimea, Alabama. Llanwer yr enwau hyn hyd gyflawnder eu hystyr ac fe geir yn mhob un o honynt gyfrol o hanes, o ryw fath. Gwneler yn gyffelyb ag enwau Pitt, Canning, Russell, Peel, Cobden a Bright, Gladstone a Disraeli, Dan O'Connell a Parnell, Wellington, Colin Campbell, a Havelock, Wolseley a Lord Roberts, Lobengula, Nana Sahib, a Kruger, Napoleon, Lincoln, Garibaldi, Bismarck, a Gambetta; neu cymerer engreifftiau o nodwedd arall, megys Haint y Tatws, Pwnc y *Reform Bill*, Terfysgoedd Treth yr Yd, y Siartiaid, Becca a'i phlant. Ceir yn raddol fel

hyny gynwys llyfrgell bwysig a gwerthfawr, a phob enw yn awgrymu, nid tawelwch a heddwch, ond cyffro parhaus, ymrafael ac ymryson.

Felly ar faes yr enwad, y pethau sydd yn cynal son yw, nid y gwasanaeth rheolaidd, y darllen, y canu, y gweddio, a'r pregethu, nid y pethau hyn; nid y bedydd na'r cymun, nid y cyfarfod gweddi na'r cyfarfod canu, nac hyd yn nod gyfarfod ymdrechol y bobl ieuainc; na, er mai y rhai hyn yw cynaliaeth bywyd ein crefydd, nid y rhai hyn sydd yn myned i dudalenau hanes, er eu bod oll yn sicr ar glawr ar dudalenau Llyfr y Bywyd. Y pethau mwyaf amlwg yn llyfrau hanes yw, y brwydrau enwadol, y dadleuon oedd yn codi o bryd i bryd. Dyna'r pethau ant i lyfrau hanes. Yr ydym yn darllen i Josiah Rees,* (1744—1804) Gellionen, fod yn wrthrych ymosodiad gan Joseph Harris (Gomer), y flwyddyn y bu farw, mewn traethodyn bychan o 12 tud., gyda'r teitl bocsachus, "Bwyell Crist yn Nghoed Anghrist"; fod dadleuon wedi cymeryd lle rhwng y ddau gymydog, J. E. Jones, a William Jones, o Benbont-ar-Ogwr; rhwng John James a Davies, Landwr; Amnon ac amryw, oll ar faes *Seren Gomer*; rhwng John Jones, Aberdar, a Jones, Llangollen; rhwng yr un John Jones ac un David Evans, pregethwr cynorthwyol gyda'r Wesleyaid yn Llanbedr; rhwng yr un eto a Samuel Edmunds (Mab Anian), ac eto a D. L. Evans; rhwng Jones, Llangollen, a Dr. Davies, y Dinas; rhwng Owen Evans, a D. L. Evans, ac a Rhys Gwesyn Jones (yn yr *Annibynwr* i ddechreu, nes iddo gael ei gau yn erbyn Mr. Evans), a Gwilym Marles; rhwng Gwilym Marles, a Dr. Lloyd, ac Owen Evans; rhwng Stephens, yr hanesydd enwog o Ferthyr, a Myfyr Morganwg. Creodd y dadleuon hyn oll gryn gyffro a dyddordeb yn y gwersyll, a llawer o deimladau drwg, ac felly fe'u cofir. Nid ydym yn meddwl dywedyd mai drwg i gyd yw dadleuaeth. Achosa derfysg ar y pryd, ond crea yspryd ymchwiliad. Nid ydym yn meddwl dywedyd mai drwg i gyd yw'r ystormydd; gallant beri anghyfleusdra ar y pryd, ond bydd yr awyrgylch yn iachach wedi iddynt basio. Dichon i derfysg y dadleuon fod yn "awelon o Galfaria" yn llawn cymaint weithiau ag awelon y "Diwygiadau."—"Ni ddaethum i ddanfon tangnefedd ond cleddyf."

Saif enw y Dr. William Richards, (1749—1818) o Lynn, allan yn amlwg iawn yn hanes ein henwad yn Nghymru. Er ei fod yn dal eglwys yn Lloegr, talai ymweliadau mynych ag ardal ei enedigaeth, ac oddiyno yr anfonai allan ei frys-negeseuon i'r gwersyllfaoedd o amgylch nes peri mawr gyffro. Pregethai, dadleuai, argraffai, cyhoeddai. Aflonyddwyd eglwysi'r Bedyddwyr, yn benaf, ac eiddo'r Anibynwyr, i raddau llai, trwy ei ymdrechion ef. Mor fore a 1780, cawn iddo gyhoeddi "Dadl dros ddarllen yr Ysgrythyrau mewn Cynulleidfaoedd crefyddol," yr hon a ddesgrifir gan Rowlands (Ll. C., tud. 599), fel traethodyn gwerthfawr o 12 tudalen. Myn

---

* Llenor coeth a chyhoeddwr Cylchgrawn cyntaf Cymru, 1770; o'r braidd y gellir gwneuthur cyfrif o "Dlysau yr Hen Oesoedd," a gyhoeddwyd yn 1735 gan Llewelyn Ddu o Fon, gan nad ymddangosodd ond un rhifyn o hono.

rhai i ni gredu ei bod yn anhawdd gwybod, beth yn gywir oedd daliadau crefyddol Mr. Richards, ac fe ddywed un awdwr, dipyn yn eithafol, dichon, "nad oedd na Chalfin nac Armin, na Thrindodwr, na Sabeliad, nac Ariad;" o leiaf, ni a wyddom hyn, fod ganddo ei wyntyll yn ei law, a'i fod yn creu gwynt ac yn peri i'r us godi peth. Yr oedd yn amlwg yn Fedyddiwr pybyr a phoeth, rhy drwsgl weithiau, ond gwnaeth lawer i greu yspryd ymchwiliad yn yr eglwysi. Bu mewn dadl yn hir a Ben Evans, Drewen, ar Fedydd, ac a Joseph Harris (Gomer), ar bynciau'r Ffydd.

Fel canlyniad, bu cyffro mawr yn mhlith y Bedyddwyr ar ddechreu y ganrif, a throdd llawer o'r gweinidogion at yr Undodiaid—y prif offerynau oedd Richards, a Williams, J.P., Aberteifi, a Ben Philips, St. Clears. Tua 1799, y daeth Mr. Philips drosodd, wrtho ei hun, megys ysgub y blaenffrwyth. Yn 1810, fe ddywed fod rhif y dychweledigion bedyddiedig (Bedyddwyr Undodaidd) yn ddeg, gydag achosion bychain dan eu gofal (Ol. R., 463). Ganwyd Ben Philips yn 1748 bedyddiwyd ef trwy drochiad yn 1775, a dechreuodd bregethu yn fuan wedi'n. Aeth i Goleg Bristol yn 1776, ac wedi iddo orphen ei yrfa Golegol sefydlodd yn Salem, St. Clears, lle y bu yn weinidog selog a llwyddianus gyda'r enwad, a pharchus gyda'i bobl am lawer o flynyddoedd. Urddwyd ef yn 1787, ac efe oedd gweinidog rheolaidd cyntaf yr eglwys. Cynaliwyd y Gymanfa yn Salem yn 1778, ac eto yn 1794. Cychwynwyd y mudiad Undodaidd yn yr ardal yn 1799, ac oddeutu 1811 (yn ol G. E. E., yn y *Vestiges*, &c.) fe brynwyd allan y gweinidog a'i bleidwyr am £50. Yr oedd Mr. Philips yn fyw yn 1837, yn ol dyddiadur y Parch. John Jones, Aberdar, yr hwn a dalodd ymweliad ag ef ar y 4ydd o Hydref y flwyddyn hono, ond yr wyf wedi methu cael allan pa bryd y bu farw.

Er mwyn peidio trethu gormod ar eich gofod, Meistri Golygwyr, a blino'r darllenwyr a stori rhy hir, gwell aros yn y fan hon yn awr, gan obeithio dychwelyd at y pwnc eto pan fo hwyl a hamdden yn caniatau.

Y WYNEB-DDALEN.

Yr ydym yn ddyledus am y darlun (*design*) celfydd a phrydferth i Miss Myfanwy Evans, merch Mr. Gwenogfryn Evans, Rhydychen. Dengys chwaeth a medrusrwydd nodedig, ac mae'r drychfeddwl yn cael ei weithio allan yn ardderchog. Yr ydym yn sicr y cytuna ein holl ddarllenwyr â ni i dalu ein diolchgarwch gwresocaf i Miss Evans am y llafur hwn o gariad. Mae y darlun yn sylweddoli cenadwri ein misolyn yn y modd mwyaf tarawiadol, fel mae ei enw yn tystiolaethu, a gobeithiwn nad ymddengys un llinell mewn un rhifyn a fydd yn annghydnaws a chwaeth a phrydferthwch y wyneb-ddalen. Gwel pob darllenydd fod Yr Ymofynydd yn cael ei gynrychioli yn y darlun gan y pererin, sydd yn ei hiraeth am y gwirionedd, yn gadael yr

hen lwybrau, ac yn chwilio am orphwysfa newydd iddo ei hun. Mae agwedd barchus a chysurus yr hen gredo yn cael ei gosod allan yn yr adeiladau sydd tu cefn, ac mae y mynydd uchel ac ysgythrog yn cynrychioli anhawsderau yr ymdaith newydd. Ond nid yw y rhagolygon yn dywyll i gyd. Mae y pererin a'i wyneb at godiad haul, ac mae ei belydrau eisoes yn taflu eu llewyrch ar y clogwyni; a chyfyd ysbryd newydd yn ei galon wrth weled fod yna lwybrau pererinion o'i flaen yn chwilio'n flin am ddinas ag iddi sylfaeni. Dyna brofiad llawer yn y dyddiau hyn, pan mae hen gartref eu henaid wedi profi yn anigonol. Mae llawer yn Nghymru erbyn hyn yn methu cael gorphwysfa yn yr hen syniadau; ac yr ydym am wneyd ein misolyn mewn modd neillduol yn help i'r dosparth hwn i gael tir cadarn o dan eu traed mewn crefydd a fydd yn gwneyd cyfiawnder a holl agweddau eu natur. Bydded i ni oll fel pleidwyr YR YMOFYNYDD ar ddechreu'r ganrif newydd ddangos trwy ein cydymdeimlad a'n brwdfrydedd ein bod yn sylweddoli ei genadwri ac yn penderfynu i'w wneyd yn deilwng yn mhob modd o'i arwyddair —"Rhyddid, Gwirionedd, Cariad."—*W.J.*

UNDEB YR EGLWYSI YSGOTAIDD.

GAN Y PARCH. E. D. PRIESTLEY EVANS, KIDDERMINSTER.

"*Fel y byddont oll yn un.*"—Ioan 17 : 22.

Mae y geiriau uchod o Efengyl Ioan yn gosod allan yr undeb yr ymdrechid am dano yn oesau boreu Cristionogaeth—undeb yspryd, ac undeb cariad. Yn y dyddiau hyny yr oedd pob eglwys yn eglwys gynulleidfaol. Nid oedd Cristionogion yn cweryla a'u gilydd sut y dylai yr eglwysi gael eu llywodraethu. Y peth mawr y gosodid pwys arno oedd yspryd a bywyd yr aelodau. Y nod y ceisient gyrchu ati oedd nid gymaint undeb Eglwysig ond undeb Cristionogol, nid undeb trefniant ond undeb yr yspryd. Nid wyf yn credu fod Iesu ei hun nac awdwr yr Efengyl hon chwaith, yn gofalu am un undeb arall. Ni theimlent un dyddordeb mewn unffurfiaeth credo neu lywodraeth eglwysig, ond iddynt fod yr un mewn yspryd. Yn wir, mae yn amheus iawn a fwriadodd Iesu erioed sefydlu eglwys arosol yn y byd, na Paul chwaith. Disgwyliai Paul i'r Messiah ddychwelyd cyn y byddai efe farw, nid i sefydlu eglwys, ond yn hytrach deyrnas o gyfiawnder, pan y byddai'r meirw yn cael eu cyfodi yn anllygredig, "a ninau," (y rhai byw) "a newidir." Ni osodai efe, ynte, lawer o bwys ar drefniant a pheirianwaith eglwysig. Y peth mawr oedd bod yn barod mewn yspryd a bywyd i gyfarfod a'i Arglwydd.

UNDEB EGLWYSIG HEDDYW.

Erbyn hyn, mae llawer o bobl yn camgymeryd undeb Cristionogol am undeb Eglwysig, a daliant fod unryw un a dora ymaith oddiwrth undeb Eglwysig yn euog o bechod mawr, y pechod o sism. Os pechod ydyw, mae wedi bod yn ffrwythlawn mewn daioni anfesurol yn hanes Cristionogaeth. Os oes rywrai yn euog o sism mae'n digwydd yn fynych mai y blaid gryfaf, fwyaf lluosog, a mwyaf cyfoethog mewn eglwys ydyw.

Torant ar heddwch y gymdeithas trwy wneyd cam a'r yspryd Cristionogol, trwy ddiffyg cariad, amynedd, ystyriaeth o hawliau eu gilydd fel brodyr Cristionogol. Dyma'r dosparth sydd yn euog o ymraniad a sism. Mae undeb Cristionogol yn beth pwysig ac anghenrheidiol iawn i'w gadw, ond gellir ei gadw pan nad oes mwyach y fath beth ag undeb Eglwysig.

Ymneillduaeth yn y Drefn Ddwyfol.

Nid oedd un pechod yn ngwaith y Waldensiaid tlawd yn canlyn eu harweinydd, Waldo, tua'r flwyddyn 1177, ac yn creu ymraniad yn Eglwys Rhufain. Yr oedd ganddynt ddigon o reswm dros hyny: teimlent fod yr offeiriaid wedi anghofio yspryd eu meistr. Hwy oedd y gwir sismaticiaid trwy eu bywyd anfoesol. Yr oedd gwrthryfel y Waldensiaid yn wrthryfel moesol, ac yn un ag oedd digon o resymau dros ei gyfiawnhau. O'r un natur hefyd oedd syniadau Martin Luther. Nid oes un pechod mewn bod yn Brotestant neu yn Ymneillduwr ar y llinellau hyn; mae hytrach yn ddyledswydd arbenig ar bob gwir Gristion mewn adegau o'r fath i brotestio ac ymneillduo. Mae mwy o rinwedd mewn Ymneillduaeth onest a didwyll nag sydd yn fynych yn holl gydffurfiaeth allanol y byd. Pan mae ymraniadau yn cymeryd lle oblegyd fod yr yspryd Cristionogol mewn rhyw ffordd neu gilydd wedi ei esgeuluso, maent yn y drefn ddwyfol yn ganmoladwy ac yn anrhydeddus.

Y Wir Sism.

Ond pan mae pobl yn cytuno mewn yspryd ac mewn gwirionedd, yn un mewn calon, a'r unig linellau sydd yn gwahanu rhyngddynt yw materion llywodraeth eglwysig, neu ryw anhawsder amserol arall; pan mae Cristionogion yn ymwahanu oddiwrth eu gilydd ar yr esgusodion mwyaf distadl; pan mae ymraniadau yn codi oddiar deimladau mympwyol neu eiddigus; pan y cymerant arnynt wneyd cydwybod o bethau dibwys, ac i gweryla a'u gilydd oherwydd rhesymau nad ydynt yn cyffwrdd ag hanfodion eu bodolaeth fel eglwys, yna mae Ymneillduaeth yn myned dros ei therfynau, ac mae genym esiampl o'r hyn a elwir yn sism sydd yn ddinystriol i yspryd crefydd, ac yn dirymu yr eglwys yn ei dylanwad ar y byd.

Arwyddion Undeb.

Yn ddiweddar mae arwyddion digamsyniol wedi ymddangos fod Ymneillduaeth yn raddol yn dysgu gwersi ei chamgymeriadau, yn gwneud ei goreu i'w cywiro, ac yn ceisio am undeb Eglwysig, lle mae'n bosibl, ac undeb Cristionogol, lle nad yw yn bosibl. Yn y gorphenol, mae Ymneillduaeth, fel eglwysi mawrion eraill, wedi bod yn ceisio am undeb trwy *gau allan*; ond erbyn heddyw mae wedi newid ei dull ac yn gwneyd yr oll a all i sicrhau undeb trwy *gau i fewn*, mor bell ag mae'n bosibl. Yn mhlith y rhai a adnabyddir fel yr Eglwysi Rhyddion gwelir symudiad eang, rhyw ymdyniad, braidd cyffredinol, tuag at eu gilydd. Yn ddiweddar mae'r Eglwysi Rhyddion Efengylaidd wedi ymffurfio yn un Cynghrair (*Federation*), yn yr hwn y mae y gwahanol Enwadau wedi cyttuno i anghofio eu gwahaniaethau, ac i uno er mwyn amcanion neillduol ar sylfaen y pethau y cytunant arnynt. Mae y cyrff Methodistaidd yn gadael o'r neilldu am unwaith eu syniadau neillduol am lywodraeth eglwysig, ac yn uno a'r Anibynwyr a'r Bedyddwyr ydynt yn credu yn hawliau pob eglwys i ofalu am ei materion ei hun, ar wahan oddiwrth unryw gynhadledd neu henaduriaeth.

Y Bedyddwyr.

Gwna y Bedyddwyr hefyd yr un peth er gwaethaf eu hymlyniad llythyrenol wrth y ffurf neillduol hono o fedydd a ddefnyddid yn ddiamheu gan y Cristionogion boreuaf. I fod

yn gyson dylent fod yn ffyddlon i'r llythyren yn mhob peth, a bedyddio yn ddieithriad yn yr afon agored fel oedd yr arferiad yn amser y Testament Newydd. Gan nad ydynt yn cario allan y ddefod i'r llythyren, dichon i'r amser ddyfod pan y gwelant eu ffordd i uno a'r Anibynwyr, a'r rhai y cytunant yn mhob pwnc ond Bedydd. Mae enw y Bedyddwyr yn enw anrhydeddus. Hwy, braidd, oedd y cyntaf i ddeall egwyddor Goddefiad, Rhyddid Gwladol a Chrefyddol. Hwy oedd y cyntaf i gredu mewn eglwys wedi ei rhyddhau oddiwrth nodded ac arolygiaeth y Wladwriaeth. Hwy oedd y cyntaf i osod mewn ymarferiad yr egwyddor wirfoddol oddiar argyhoeddiad, ac nid fel y Presbyteriaid Saesnig, y rhai a gredent ar y cyntaf mewn Eglwysi Sefydledig, ond a orfodwyd i fabwysiadu yr egwyddor wirfoddol.

Yn yr un modd nid oes un rheswm paham na ddylai holl ganghenau y pren Methodistaidd yn y wlad hon, a thrwy'r byd, uno a'u gilydd yn un corff mawr, ac yn eu hundeb brofi fod eu nerth wedi ei luosogi ar ei ganfed. Yn America mae cydymdeimlad mawr wedi bodoli am hir amser rhwng yr Undodiaid a'r *Universalists*, cydymdeimlad dwfn mewn syniadau ac amcanion; ac yn ddiweddar ymddengys arwyddion lled amlwg fod prif ddynion y ddau Gyfundeb yn hiraethu am ddyfod yn agosach at eu gilydd. 'Does dim mewn gwirionedd i'w cadw ar wahan. Mae pob ystyriaeth yn eu galw i uno a'u gilydd a chynorthwyo eu gilydd yn y gwaith ardderchog sydd o'u blaen.

Y Ddwy Eglwys Ysgotaidd.

Er ys ychydig wythnosau yn ol gosodwyd esiampl fawr a gogoneddus flaen y gwahanol Enwadau Ymneillduol gan y ddwy eglwys fawr Ymneillduol yn Ysgotland. Yn Ysgotland hyd Hydref 30, 31, 1900, yr oedd tair o brif eglwysi arweiniol a llywodraethol, ac yr oeddent i gyd yn Bresbyteraidd, ac y maent eto, o ran eu ffurf-lywodraeth Eglwysig, a chredent yr un athrawiaethau, a glynent wrth yr un safonau; ond wedi'r cwbl safent ar wahan oddiwrth eu gilydd. Un o honynt oedd Eglwys Sefydledig Ysgotland, yr ail oedd y Presbyteriaid Unedig, neu yr U. P., a'r trydydd a elwid yr Eglwys Rydd. Mae'r Eglwys Rydd a'r U.P. wedi uno a'u gilydd, a'r weithred derfynol wedi cymeryd lle tua diwedd Hydref diweddaf. Mae hanes yr eglwysi hyn yn cael ei olrhain yn ol i amser John Knox, pan y cyfarfyddodd Cymanfa Eglwys Ysgotland am y tro cyntaf yn y flwyddyn 1650. Nodwedd arbenig yr eglwys hon oedd ei chydnabyddiaeth o Iesu Grist fel unig ben yr eglwys. Sefydlwyd yr Eglwys hon, fel yr Eglwys Wladol, yn amser Gwilym y Trydydd ar ol y chwyldroad yn 1688. Ond er wedi ei sefydlu ni chydnabyddai y brenhin yn ben yr Eglwys. Ond yn amser y frenhines Anne, yn 1711, gorfodwyd hi i gydnabod awdurdod y frenhines fel pen yr Eglwys, ac wed'yn ar ol hir frwydro cymerodd y rhwygiad cyntaf le yn 1733, o dan Ebenezer Erskine, ac eraill; a'r ail rwygiad yn 1752, o dan Thomas Gillespie; a'r trydydd rhwygiad yn 1843, pan y ffurfiwyd yr Eglwys Rydd, o dan arweiniad yr enwog Dr. Chalmers. Ond yn y flwyddyn 1847, ryw bedair blynedd ar ol y trydydd rhwygiad, darfu i'r ddau gyntaf uno a'u gilydd i ffurfio yr hyn a adnabyddid ar ol hyny fel yr Eglwys Bresbyteraidd Unedig; ac yn awr, yn ystod blwyddyn derfynol y ganrif mae'r Eglwys ddiweddaf yma wedi uno a'r Eglwys Rydd, a ffurfiant un Eglwys fawr, gref, ar un llaw, a'r Eglwys Bresbyteraidd Sefydledig ar y llaw arall, ac nid oes yn awr ond dwy Eglwys lywodraethol yn yr Ysgotland yn lle tair.

Dechreuwyd symud yn y cyfeiriad hwn tua'r flwyddyn 1863, ond yr oedd y gwrthwynebwyr, yn neillduol yn yr Eglwys Rydd, yn rhy luosog; ond o'r amser hwnw hyd yn awr y maent wedi lleihau, ac wedi colli y gallu i wrthsefyll y dylanwadau oedd

yn gweithio yn eu herbyn Gwnaed ail gychwyniad eto yn 1896, ac yn y cyfamser, rhwng 1896 a 1900, gorchfygwyd pob anhawsder, a daeth y gwaith i derfyniad gogoneddus. Yr arweinydd a lwyddodd i ateb pob amheuon ac i symud ymaith bob atalfa oedd yr hybarch Dr. Rainy, yr unig aelod oedd yn aros o'r pwyllgor a wnaeth yr ymgais yn 1863.

Paham nad yn Gynt.

Gellir gofyn paham na fuasai y ddwy ganghen yma wedi uno a'u gilydd yn mhell cyn hyn gan eu bod yr un mewn credo, a llywodraeth Eglwysig. Yr ateb yw, fod yr Eglwys Rydd yn credu mewn Eglwys Sefydledig, ac yn gobeithio mewn amser i ddychwelyd iddi. Ond ni chredai yr U. P. ynddi. Credai yn gadarn yn yr egwyddor wirfoddol. Dysgodd yr Eglwys Rydd yn raddol i gredu yn yr un egwyddor, ac erbyn hyn mae mor gadarn ag un Eglwys Ymneillduol arall i wrthwynebu pob ymyriad ar ran y Wladwriaeth mewn materion crefyddol. Yn ngwyneb yr holl anhawsderau oedd ar y ffordd, cwestiynau o eiddo ac adeiladau, aildrefniad y trysorfeydd enwadol a'r Colegau, &c., mae'r gwaith mawr o undeb dwy eglwys fawr wedi ei wneyd, a'i wneyd yn llwyddianus; ac mae'n aros yn *object-lesson* ar ddiwedd y ganrif i bob sect ac enwad i'w dysgu a'i dilyn. Yr ydym yn llawenhau fod hyn yn gyflawniad rhanol o eiriau Iesu sydd uwchben yr erthygl yma, fod nid yn unig undeb trefniant ond hefyd undeb yspryd wedi ei sylweddoli; a dymuniad pob cyfaill i wir grefydd yw y bydd i brofiad yr Eglwys newydd hon fod mor ddedwydd a llwyddianus, fel ag i symbylu canghenau eraill o'r Eglwys i gadw o'u blaen yr un amcan, i symud ymaith bob canolfur gwahaniaeth dianghenrhaid, a sylweddoli ar y raddfa eangaf yr undeb hwnw a ddylai fodoli rhwng dysgyblion Crist ydynt yn cydnabod yr un athraw a'r nu bugail.

YN EISIEU,--HERETICIAID.

Gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe.

Clywir llawer o son y dyddiau hyn fod eisiau gwahanol bethau arnom fel crefyddwyr. Dywedir wrthym, er engraifft, fod angen am yr "hen ddiwygiadau" er mwyn dyfod a Chymru yn ol o'r anialwch diffaeth mae wedi myned iddo. Os gwrandewir yn astud dyma ydyw'r sain wylofus a glywir yn nghyfarfodydd gweddi y saint; dyma ydyw nod llawer—y mwyafrif—o bregethau a draddodir yn ein gwlad. Ond credaf fod angen arall mwy pwysig ar Gymru y dyddiau hyn—angen am hereticiaid. Waeth faint fydd y gri am yr hen ddiwygiadau, ni ddeuant byth yn ol. Mae'n anmhosibl iddynt ddyfod, a gwnaent niwed pe buasai yn bosibl iddynt ddyfod yn yr un dull ag yr ymddangosent yn y dyddiau gynt. Heretic ydyw cychwynydd pob diwygiad yn ein byd ni wedi bod. Heretic oedd Iesu; heretic oedd Luther; hereticiaid oedd Daniel Rowlands, o Langeitho, a Howel Harris, o Drefecca; heretic oedd Dr. Martineau; heretic a daflwyd allan o Eglwys y Presbyteriaid yn Ysgotland oedd Wm. Robertson-Smith, a hereticiaid ydyw nifer fawr

o ysgolheigion blaenaf Prydain, Amerig a'r Almaen heddyw.

Goddefwch ynte, i ni ofyn y cwestiwn, Beth yw heretic? Nid oes dim yn hanes bywyd y gair y dylai fod yn gywilydd ar neb i'w arddel. Ystyr y gair "heretic" yw un abl i ddewis ei syniadau ei hun, ac nid un yn cymeryd ei orfodi i gredu credo ei eglwys, neu gredo neb arall. Un a wrthwyneba y syniadau, yn fwyaf neillduol y syniadau duwinyddol, a ddelir gan y nifer fwyaf oddiamgylch iddo. Mae'r hereticiaid, gan hyny, wedi bod bob amser yn y lleiafrif, a byddant felly tra parhao'r natur ddynol fel ag y mae. Ond nid yw hyn yn rheswm dros gredu nad oes angen am hereticiaid. Mae yn rheswm dros godi'r gri heddyw, "Yn eisiau, hereticiaid." Mae'r byd yn symud,—yn araf, mae'n wir, ie, yn araf, mae yn anhebgorol angenrheidiol iddo symud. Gwel yr "heretic" anigonolrwydd cyfundrefn dduwinyddol y dydd. Gwel fod yn anmhosibl i syniadau duwinyddol y ddeunawfed ganrif foddloni pobl yr ugeinfed ganrif. Deil y syniadau newyddion i fyny; teifl y goleuni hwn ar ei deulu ac ar y gymydogaeth, ac ambell i waith ar wlad gyfan: trwy hyn, crea gynwrf. Yn y dyddiau gynt dioddefai farwolaeth merthyr am ddal ei ganwyll i fyd tywyll oedd yn y ffos ar noswaith dywell. Mae'r cyfnod yna wedi myned heibio, cyfnod lladd corph dyn; ond nid yw cyfnod lladd ysbryd dyn wedi llwyr fyned heibio pan gychwyna'r YMOFYNYDD ar ei yrfa yn nechreu'r ugeinfed ganrif.

Yn mhale, ynte, y gorphwys gwaith yr hereticiaid ar ddechreu y ganrif hon. Y tro hwn galwaf sylw fod eisiau hereticiaid *yn yr eglwys*. Gellir dywedyd, a chyfaddefir hyn gan lawer o fewn i'r eglwys uniongred, fod pethau mewn ystad dywyll. Ar un ochr, dysgir dynion i seinio geiriau credoau heb feddwl am iddynt i'w cymeryd yn llythyrenol. Mae'n hollol hysbys i weinidogion eu hunain fod pethau wedi newid llawer yn ystod yr haner canrif ddiweddaf, ac eto gorfodir pobl i lynu wrth syniadau fel pe buasent wedi disgyn o'r nefoedd mewn modd goruwchnaturiol. Gwelir hyn yn fwyaf neillduol mewn perthynas i'r Beibl a'r syniadau a gredwyd am dano yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechreu y bedwaredd - ganrif - ar - bymtheg mor bell ag y mae Cymru yn myned. Beth yw y syniadau hyn? Syniadau na fedr gwybodaeth a chynydd meddyliol ac ysbrydol yr eglwys ddim derbyn unrhyw ddadguddiad uwch nag a roddir i ni yn y llyfrau a nodwyd. Gwyddom oll mewn perthynas i'r Beibl fod syniadau ynddo nad ydynt yn llythyrenol wir. Daw ein plant cyn bo hir i wybod yr un peth gyda'r addysg dderbyniant yn Ysgolion Canolraddol Cymru. Erlidir yr heretic, Dr. Marcus Dods, yn Ysgotland y dyddiau hyn am ddweyd hyn, am ddweyd y gwir. Mae gwerth y Beibl yn anmhrisiadwy. Ynddo ef y ceir y darluniau goreu o Dduw a'r bywyd dynol; ynddo ef y ceir hanes bywyd ac hunan-aberth y meistr mawr, Iesu. Ai nid canmil gwell ydyw dweyd y gwir am y Beibl; dangos fod rhanau o hono yn israddol i ranau ereill; dangos fod yr hyn sydd ynddo mewn perthynas i gymeriad a nod bywyd yn aros yr un yn nghanol holl chwyldroadau'r oesoedd? Y perygl mawr o ddangos fod yr oll o'r Beibl ar yr un lefel foesol fydd, maes o law, i'r oes sydd yn codi daflu'r oll o hono o'r neilldu oherwydd fod rhanau o hono yn brwydro yn erbyn goleuni gwybodaeth y dydd. Gwn, trwy ymddiddan a nifer o fechgyn meddylgar fod yna berygl yn gorphwys yn y fan yma. Chwiliwch syniadau ein bechgyn yn y Colegau Cymreig a chewch weled fod hyn yn wir.

Sut, ynte, i osgoi y perygl? Trwy gael hereticiaid,—dynion ag sydd yn penderfynu cyhoeddi eu syniadau pa beth bynag fydd y canlyniadau; dynion a fydd yn barod i aberthu dros y gwirionedd fel ag y gwelant ef, ac yn barod i'w gyhoeddi pa beth bynag fydd yr anathemau a gyhoeddir uwch eu penau. Gwel yr heretic ddau beth, a chy-

hoedda hwynt. Gwel lawer o ûs yn mysg y gwenith, a gwel natur y gwenith yn well ar ol ysgwyd yr ûs i ffwrdd. Mae ei waith yn nacaol ac yn gadarnhaol. Gwel waelder y bwthyn, ac nid yw'r ffaith ei fod wedi ei eni ynddo yn ei rwystro i'w dynu i lawr er mwyn codi un gwell. Yn y dull hwn ymdrinia'r heretic a'r Beibl, ac a'r Erthyglau, a'r Gyffes Ffydd ; gwel eu bod wedi ateb amcan gogoneddus yn eu dydd, ond gwel fod dydd arall wedi gwawrio, ac fod yr eglwys ei hun yn crio am syniadau fydd mewn mwy o gydgordiad a goleuni y dydd,—syniadau a alluogant y byd i dderbyn crefydd heb orfodi lladd y goleuni sydd ynddo wrth natur a thrwy addysgiaeth er mwyn gwneuthur hyny. Nid canwyll i'w chadw mewn rhyw gornel o natur dyn ydyw crefydd, ond canwyll a oleua ei ben, ei galon, a'i enaid. Rhaid i'r oll o'r dyn fod yn grefyddol neu ynte bydd brwydr hyd ei fedd rhwng ei ddeall a'i deimlad. Rhaid cylymu y ddau cyn y caria crefydd y dylanwad mwyaf ar y dyn, a chyn y bydd yn ddigon cryf i ddal ystormydd geirwon a chwythant yn y dyfodol ar ei gastell. Mae'n eisieu, gan hyny, hereticiaid i draethu hyn, dynion i gyfeirio dynoliaeth ymlaen tua'r dyfodol ac nid i'w chario yn ol tua'r gorphenol. Mae'r meusydd yn wynion i'r cynhauaf. Gwawrried y boreu, yn fuan, fuan, pan y gwelir ieuengctyd meddylgar ein gwlad yn cymeryd eu crymanau yn eu dwylaw ac yn myned allan i'r meusydd i fedi'r chwyn a'r gwenith, ac i daflu'r cyntaf o'r neilldu, ac i grynhoi'n ofalus yr olaf i'r ysgubor. Mae'n eisieu yn yr eglwys y dyddiau hyn, Hereticiaid.

NYTH Y FRAN.

Mae'n fantais bod ar y lan yn rhywle er mwyn gwel'd. Nyth brân neu *Crow's Nest*, elwir y cawell hwnw a osodir yn uchel i fyny ar hwylbreni y llongau sydd yn morio yn nhiriogaeth y pegynau. Mae'n fan cyfleus i arolygu yr holl sefyllfa, i sylwi ar yr atalfeydd ar y ffordd, i groesawi addewid gynta'r wawr yn y bore, ac i dywys y llong yn ddiogel heibio i bob perygl. Ar wahan oddiwrth y gyfatebiaeth hon, mae Brân yn ei nyth ar frig y goeden mewn disgwylfa gyfleus i wylied pob symudiad yn ei chymydogaeth. Mae ganddi lygaid craffus i ddal ar bob mantais sydd yn addaw lluniaeth iddi ei hun a'i theulu, ac unwaith ar ei hedyn mae'n ddiwyd a llafurus gyda'i gorchwyl am y dydd. Fel pob creadur arall nid yw hi ddim heb ei *drawbacks*. Nid yw ei gwisg yn ddeniadol ; mae'n rhy bruddaidd ac undonol, ond felly hefyd mae *cloth* yr offeiriad a'r pregethwr. *Black dragoons* y galwai Carlyle yr offeiriaid. 'Does dim swyn na pheroriaeth chwaith yn ei llais hi, ac mae Brân YR YMOFYNYDD yn digwydd bod yn dioddef oddiwrth yr un gwendid. Ond lle mae diffygion mae deddf *compensation* yn dyfod i fewn bob amser, ac mae un o brif *gompensations* Brân yn cael ei osod allan yn yr hen ddihareb Gymreig,—"Gwyn y gwel y frân ei chyw."

Yn y *Goleuad* am Tachwedd 28, 1900, dywedir am y diweddar Barch. W. Williams, Capel Argyle, Abertawe, un o weinidogion hynaf a mwyaf parchus y Methodistiaid Calfinaidd ei fod "yn gymeriad cryf a diys-

gog. Yr oedd yn berchen ffydd ddiamheuol yn Ngair Duw, ac yn neillduol yn ngwirioneddau hanfodol yr Efengyl — yr Ymgnawdoliad, yr Iawn, Cyfiawnhad trwy Ffydd, a'r holl bynciau cysylltiol." Pa eisiau dweyd hyna oedd? Onid yw credu pethau felly yn *matter of course* gyda phob pregethwr Methodis? Onid ydynt oll wedi ymrwymo i fod yn ffyddlon i'r *Gyffes Ffydd* pan yn cael eu hordeinio? Mae tuedd mewn sylw o'r fath yna i yru *outsiders* fel fy hun i ddarllen rhwng y llinellau a chasglu fod rhywbeth yn *wrong*, hyd yn nod yn y gorlan Fethodistaidd, a bod yna ambell i lwdn pregethwr, a nod clust y Methodis arno, yn barod i redeg yn wyllt dros derfynau'r *Gyffes Ffydd*, pe byddai efe yn cael haner cyfle. Byddai yn honiad go feiddgar i ddweyd fod hyd yn nod y Methodistiaid i gyd yn iach yn holl bynciau'r *Gyffes Ffydd* erbyn hyn. Mae'r amser hwnw wedi myned heibio. Yr oedd yr Hybarch W. Williams, Abertawe, yn ddigon iach yn y ffydd, wrth bob hanes, ond pwy all roddi *guarantee* y bydd ei olynydd, pan y dewisir ef, dyn ieuanc, feallai, o un o'r Prifysgolion—yn credu yr holl bynciau yn y wedd yr edrychai awdwyr y *Gyffes Ffydd* arnynt, ie, a'r hen Williams hefyd?

Mae *Cyffes Ffydd* y Methodistiaid, wrth gwrs, yn Galfinaidd yn ei hanfod a'i sylwedd, ac yr oedd Calfiniaeth yn rhywbeth i gyfrif a hi yn 1823, pan y gwnaed y Gyffes, ond nid yw erbyn hyn yn meddu ar y gallu, nac yn cario y dylanwad a berthynai iddi unwaith. Gwrandawer ar Canon Gore, yr offeiriad enwog, yn pregethu yn Eglwys St. Chrysostom, Victoria Park, Manchester, ychydig amser yn ol. "Yn nyddiau ein tadau," meddai Canon Gore, "yr oedd y pwlpudau yn adseinio gan ddychrynfeydd uffern, ond nid oedd y rhai hyn rywffordd yn effeithiol iawn. Yr oedd cyfnewidiad mawr wedi cymeryd lle oddiar hyny, ac ychydig glywir yn awr ar y pwnc ofnadwy hwnw, ac yr oedd y gwrthweithiad yn erbyn yr hen ddull o bregethu yn iawn. Oblegid yn y lle cyntaf, teimlent yn sicr fod Calfiniaeth yn *wrong*. *Yr oedd yn athrawiaeth ag y byddai yn well i ddyn i beidio credu dim na chredu ynddi.* Yr oedd yn wrthwynebol i bob teimlad moesol a chrefyddol oddimewn ini, oblegid teimlem yn sicr mai dyfnder ein hymwybyddiaeth foesol oedd y moddion goreu i ddyfod i adnabyddiaeth o Dduw. Mae wedi cael ei ddysgu hefyd os na fyddai dyn wedi cael ei fedyddio, neu os na fyddai wedi clywed yr Efengyl, neu os byddai wedi cael ei ddwyn i fyny mewn rhyw gred nad oedd yn iawnffyddol, yna yr oedd yn agored yn anocheladwy i ddinystr tragywyddol. Yr oeddem yn eithaf iawn hefyd i daflu syniad o'r fath yna o'r neilldu." 'Dyw sylwadau Gore ar Galfiniaeth ddim ond adsain o'r ysgrif orchestol hono gan Channing—y *Moral Argument against Calvinism.* Yr oedd Calfiniaeth yn fyw yn amser Channing. Erbyn diwedd y ganrif, trwy ei ysgrifeniadau ef, ac eraill, mae wedi myned yn *spent force*; ac fel y dywedai y diweddar Dr. Dale, gweinidog enwog yr Anibynwyr yn Birmingham, Charles H. Spurgeon oedd y Calfiniad diweddaf, y diweddaf o bwys, wrth gwrs.

Dywedodd dyn ieuanc unwaith wrth Esgob Winchester (Wilberforce) "Fy Arglwydd, ydych chwi wedi darllen llyfr diweddaf Darwin ar 'Ddisgyniad dyn.'" "Ydwyf," meddai'r Esgob. Aeth y dyn ieuanc yn mlaen, "Y fath ffwlbri i siarad am ddyn yn disgyn oddiwrth yr Epa. Heblaw hyny, nis gallaf wel'd y defnydd sydd yn y fath siarad. Nis gallaf wel'd pwy wahaniaeth wnelai i mi pe byddai nhadcu yn Epa." "Na, eithaf gwir," atebai'r Esgob, "ond fe wnelai wahaniaeth ryfeddol i'ch mamgu."—Y FRAN.

ADOLYGIADAU.

GWERSI AR FYWYD IESU.*

Ffurfia y llyfryn hwn ran o gyfres o lawlyfrau esponiadol ar yr Efengylau, a gyhoeddir gan y Gymdeithas Undodaidd Gymreig, at wasanaeth Ysgolion Sul a theuluoedd ein henwad. Cynorthwyir y golygydd yn y gwaith gan wyth neu naw o ysgrifenwyr eraill—y nifer fwyaf o honynt yn wyr adnabyddus a dysgedig.

Daeth y Gwersi ar yr Efengyl yn ol Marc allan mewn tair rhan, ac y mae y Gyfrol hon yn ymwneyd a'r wyth penod gyntaf yn yr Efengyl yn ol Luc. Cynwysa bump-ar-hugain o Wersi. Cynllun y Gwersi ydyw—Pwnc y Wers, a'r cyfeiriadau ato yn yr Efengylau ereill; y testun euraidd; nodiadau arweiniol; nodiadau eglurhaol, a gofyniadau ar y wers.

Nodweddir y rhan hon, fel y rhai blaenorol â'r un yspryd agored, rhydd ac iachus—yspryd sydd yn rhwym o gymeradwyo ei hun, hwyr neu hwyrach, i bawb fyddont yn ymwneyd ag esponiadaeth Feiblaidd. Cof genym pan yn ieuanc am hen athraw parchns yn yr Ysgol Sul, os codai unrhyw bwnc yn y dosbarth na fuasai yn cydfyned yn llwyr a'i olygiadau neillduol ef, cauai ei ddau lygad, rhoddai grafad wyllt i'w gopa a dywedai, "gwell i ni adael hwna fan yna 'nawr, a myn'd yn mlaen at y paragraff nesa'." Mae yspryd yr hen frawd yn nodweddiadol o amryw o esponiadau adnabyddus a phoblogaidd, ond saif y "Gwersi ar Fywyd Iesu" ar eu penau eu hunain yn yr Iaith Gymraeg, fel ymgais i egluro pob adnod, a phob pwnc yn ddiofn, gyda meddwl a chalon agored, ar egwyddor rhyddymofyniad. Tarewir y darllenydd yn union a'r manylder a ddangosir gan yr oll o'r ysgrifenwyr. Troir pob careg; a cheir yn y llyfryn grynodeb o feddyliau addfetaf prif efrydwyr Beiblaidd yr oes, wedi eu cyfleu mewn modd syml ac eglur.

Bu darllen y gyfrol yn bleser mawr i ni, a chynyrchodd ynom ryw ddyddordeb newydd yn Luc a'i efengyl. Nid oedd prydferthwch a swyn llenyddol yr efengyl erioed o'r blaen wedi apelio atom fel y gwnaeth wrth ddarllen y rhanau a gymeradwyir yn y wers gyntaf. Engraifft ragorol yw yr hon a roddir ar tud. 71.

> "Gwlychodd hon fy nhraed â'i dagrau;
> Ac â gwallt ei phen hi a'u sychodd;
> Tydi, ni roddaist i mi gusan;
> Ond hon, er pan ddaethum i mewn, ni pheidiodd a chusanu fy nhraed.
> Tydi, ni iraist fy mhen ag olew:
> Ond hon a irodd fy nhraed ag enaint
> Oherwydd paham, y dywedaf i ti, ei phechodau, ei haml bechodau, a faddeuwyd, oblegid hi a garodd yn fawr.
> Ond yr hwn y maddeuir ychydig iddo, a gar ychydig."

Teimlir fod *keynote* y llyfr yn cael ei tharo ar ddechreu tud. 5. Llais prophwyd a llygad clir ganddo ydyw.

Ymdrinir gan amryw o'r ysgrifenwyr â phwnc y Gwyrthiau, ond bron yn ddieithriad gyda gradd helaeth o ochelgarwch. Credwn y gallesid fod yn fwy pendant a chlir. Nis gallwn weled, pe y diosgid Cristionogaeth o'r addurniadau gwyrthiol, y tynid oddiwrthi ddim o'i gwir werthfawredd—ei dylanwad dyrchafol ar y cymeriad unigol a chymdeithasol. Rhaid cyfaddef fod yr egwyddor wyrthiol yn ymladd yn erbyn ein rheswm, ein profiad, a'n sylw. Dim ond sylwi, nid yw gwyrthiau byth yn cael eu cyf-

---

*GWERSI AR FYWYD IESU, fel eu cofnodir yn yr Efengyl yn ol Luc. Rhan I. Dan olygiaeth y Parch. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul. Pris 9c.

lawni ond ar adegau, ac mewn gwledydd lle y credir ynddynt, a byth gerbron ond a fyddo a thuedd ynddo i'w credu. Digon posibl fod ryw sail i'r rhan fwyaf o'r gwyrthiau a gofnodir, ond erys eu gwerth mwyaf yn y goleuni a deflir drwyddynt ar gymeriad yr Iesu. Pwysleisiant y tosturi, y cydymdeimlad, y tynerwch, a'r hununaberth oedd yn nodweddu ei holl fywyd.

Paragraff gwerthfawr ydyw yr un ar tud. 11, *Pwnc yr oes hon.* Dysger y rhan olaf o hono i holl ieuenctyd ein Hysgolion, a bydd yn werth ac yn gadernid iddynt.

Nid awn i ddechreu dyfynu, ai ein hysgrif yn rhy faith. Mae y llyfr yn llawn gwybodaeth werthfawr, ac yn awgrymiadol iawn drwyddo oll. Rhagora ar bob peth ydym wedi ddarllen yn Gymraeg ar yr Efengyl. Mae'n gyfrol isel ei phris, o fewn cyrhaedd pawb, a theilynga dderbyniad calonog a chyffredinol.

PETHAU NEWYDD A HEN.*

Bychain a dibwys fel rheol yw llyfrfaoedd Undodaidd lleyg Cymru, a charem weled gwelliant ynddynt. Os bernir ef wrth ei silff lyfrau, nid yw yr Undodwr fawr o ddarllenwr.. Yr oedd ein hendadau, dybiwn, yn gwneuthur yn well—gyda'u Beibl, eu Halmanac a Llyfr y Ficer. Heddyw, fe wastraffir amser a nerth, ar yr hyn nid yw ond megys tynu wrth raffau yr haul. Darllenir *Tit-Bits*, *Chums*, neu rywbeth cyffelyb yn unig i basio'r amser. Nid oes yn y rhai hyn ddim i wneuthur asgwrn cefn moesol cryf, dim i gryfhau y rheswm a'r deall a'r gydwybod—ysgubir yr oll i'r fasged ar ddiwedd yr wythnos. Yn y gorphenol, yn rhy fynych, ar ol talu am dano, fe geid *Yr Ymofynydd* weithiau heb ei dori wedi myned i'r siop yn bapyr paco. Yr ychydig, y rhai deallus yn unig, sydd yn ei rwymo a'i barchu fel y dylent. Yn awr, dyma lyfr y dymunaf ei gymhell yn daer i sylw ein pobl, llyfr i'w ddarllen a'i fyfyrio ; mae yn ddyddorol, yn adeiladol. Gellir myned drosto drachefn a thrachefn a dysgu rhywbeth bob tro. Da chwi, chwi bobl ieuainc yn enwedig, gwrteithiwch gariad at lyfrau da, mynwch yspryd darllen. Mae llyfrau heddyw yn rhad, a dylai fod gan bob un silff dda o honynt. Mesurir maint a gwerth dyn heddyw wrth faint a gwerth ei wybodaeth.

Mae HOLWYDDOREG* y Parch. D. Evans wedi cael ei ddefnyddio yn ein Hysgolion Sul am flynyddau. Oddiar sefydliad yr Arholiadau Blynyddol mae wedi bod yn bwnc Safon 2, ac mae wedi ei brofi yn lyfryn defnyddiol fel crynodeb mewn cwestiwn ac ateb o hanes Iesu Grist. Gwelir fod hwn yn argraffiad diwygiedig. Gellir dweyd braidd ei fod wedi cael ei ail-wneyd. Teimlid gan rai fod yr hen argraffiad hytrach yn anhawdd ar gyfer y Safon y cymhwyswyd ef ati. Nid ydym yn credu y gellir dweyd hyn am yr argraffiad hwn. Mae y gofyniadau a'r atebion wedi ei tori i fynu, a'r oll wedi ei gyfleu mewn dull mor naturiol a syml fel na fydd un anhawsder, o du y llyfr, i blant i ddeall, i ddysgu ac i gofio. Nid iawn achwyn ar y llyfr mwyach, beth bynag. Rhaid ffeindio ryw esgusawd arall dros fod yn ddifater gyda'r arholiad. Yr ydym yn teimlo yn ddiolchgar

---

*"Pethau Newydd a Hen," gan D. Delta Evans, Llundain. I'w gael oddiwrth yr Awdwr, 59, Abbotsford Avenue, S. Tottenham, N. Pris 3s.

*"Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist," gan y Parch. D. Evans, Capelygroes a Chribin. Argraffiad Diwygiedig. Llandyssul : John D. Lewis, Argraffydd, Gomerian Press. 1900. Pris 1c.

iawn i Mr. Evans am dalu cymaint o sylw yn nghanol ei lafur i'r argraffiad hwn. Gobeithio y caiff ei ymdrechion eu gwerthfawrogi gan ein teuluoedd ac yn ein Hysgolion Sul, ac y bydd y llyfryn yn foddion i argraffu gwersi bywyd ac addysg Iesu Grist ar feddyliau ein pobl ieuainc.

GOHEBIAETH.

RUSKIN A THOLSTOI.

Yn rhifyn Rhagfyr, tud. 285, gofyna "D. R. T." i mi, "Beth oeddwn yn feddwl wrth ddweyd fod y ddeuddyn hyn yn "wallgof." " Nid wyf yn cofio i mi ddweyd dim o'r fath, ond os gwnaethum, yr wyf yn sicr na wnaethum hyny o un amharch iddynt, gan y credaf eu bod yn browydi mawrion y ganrif. Yn anffodus, nid yw fy mhregethau nemawr un o honynt yn ysgrifenedig, ac felly weithiau y mae gair yn dianc sydd yn agored i gamddealldwriaeth ar ran y *critic*, yn enwedig os bydd yn dal ar air yn hytrach nag ar y cysylltiad. Ond yn meddwl ein hynafiaid yr oedd math o wallgofrwydd yn meddianu y gwir broffwyd. Yr oedd yn ddyn eithafol, a thebyg mai'r hyn oeddwn inau yn geisio ddweyd am Ruskin a Tholstoi oedd eu bod yn eithafol ac anymarferol, heb fod bob amser ar linell union dadblygiad—*delirious* (*de and lira*, *out of the furrow*), yn methu tori cwys union, ond yn gadael i'r aradr wyro allan o'r llinell. Fel hyn y dywed adolygydd un o lyfrau diweddaf Tolstoi yn y *Christian World*, 6. xii. 1900, sef y llyfr a elwid "*The Slavery of our Times*," ac o dan y penawd *Tolstoi—A Plea for Anarchy: A Mischievous Book*—"*Such a book as this . . . can do an infinity of mischief in countries under autocratic government by diverting reformers from the only possible line of progress and amendment, in pursuit of a will-o'-the-wisp.*" Yn lle dilyn llinell union ac ymarferol y maent yn awr ac yn y man yn rhedeg ar ol *jack-o'-lantern*, ac yn ceisio hud-ddenu eraill i'w dilyn.

R. J. J.

CONGL YR AWEN.

Y mae Cymru o hyd yn fagwrfa i feib yr awen ; ac yn enwedig y rhanau gwledig o honi, megys Caerfyrddin a Cheredigion, er engraifft. Wrth daflu "Congl yr Awen" yn agored ar ddechreu canrif newydd, nis gallwn lai na chymharu awen Cymru sydd, ag awen Cymru gan' mlynedd yn ol, yr adeg pan oedd Dafydd Ionawr a Nantglyn yn eu hanterth, a Thwm o'r Nant athrylithgar yn tynu at derfyn edifeiriol ei

oes. Dyma'r adeg pan oedd Daniel Ddu, Tegid, R. ab Gwilym Ddu ac Eben Fardd yn breuddwydio breuddwydion ieunctyd hyd ochrau mynyddau Cymru. A phwy ŵyr nad oes rhai o gampweithiau'r ugeinfed ganrif eisoes yn ymlunio yn mynwes rhyw hogyn troedtrwm sydd hyd yn hyn rhwng dau corn yr aradr yn nghaeau Sir Aberteifi? Y mae genym amryw feirdd rhagorol yn fyw, nad oes eisiau eu henwi—beirdd y cofir am danynt am oesau i dd'od. Oes y llyffetheiriau di-drugaredd oedd hi ganrif yn ol; cleciadau trystiog Goronwy Owen a edmygid yn y dyddiau hyny. Ond y mae'r awen yn cael mwy o ryddid erbyn heddyw, ac felly yn cyfodi yn uwch nag erioed, a gorwelion ei chreadigaeth yn ymestyn yn mhellach bellach. Y mae bardd byd heb ymddangos yn Nghymru eto; mor ychydig a wyr hyd yn nod ein cymydogion agosaf, y Saeson, am danom! Ond fel y mae addysg yn lledaenu, a chrefydd iachach yn gwreiddio drwy y wlad, y mae ein cenedl yn deffro megys o drymgwsg oesau; ac yn y deffroad cyffredinol beiddiaf broffwydo y deffry hefyd gân a glywir nid yn unig ar fryniau Cymru ond dros wyneb y byd gwareiddiedig. Pwy gana'r gân hono? Efallai rywun a ddechreuodd ei yrfa yn "Nghongl yr Awen."

S.

Llinellau i longyfarch YR YMOFYNYDD." Diolch. Y mae llawer o yspryd heblaw cynghanedd yn eich hir-a-thoddaid. Nid eich bai chwi yn unig yw defnyddio geiriau llanw—*gwiwdeg*, er engraifft. Y mae ein hen gynghaneddwyr yn llawn o'r cyfryw ansoddeiriau anmhenodol eu hystyr. Rheol dda yw taflu dros y bwrdd bob llinell a ddelir i fyny gan air o'r fath, a dyfalbarhau hyd nes cael llinell f'o gwell. Chwarddai George Eliot pan y sonid am athryllith wrthi: dyfalbarhad yn unig oedd i gyfrif am ei llwyddiant, meddai hi. Brysiwch eto, a phob *gair* o'r eiddoch a'i lon'd o'ch awen.

—

LLINELLAU I LONGYFARCH "YR YMOFYNYDD"

Ar ei ymddangosiad dan Olygiaeth newydd, Ionawr 1901.

Byd doeth yn neall gwybodaeth newydd,
Gwn, yr ugeinfed ganri' a genfydd;
A diau y cawn, er gwiwdeg gynydd,
Fwys iach awyr haf ar foes a chrefydd;
Puraf èm mwynaf awen a 'menydd
A ddaw er lloni y mad ddarllenydd:
Ac o'r gref wasg rywiog rydd—y t'wysog
A'r mwyaf enwog fo'r *Ymofynydd.*

CLEDLYN.

COLOFN Y PLANT.

ANWYL BLANT,—Yr wyf yn ofni mai ychydig o honoch sydd yn arfer darllen YR YMOFYNYDD. Efallai mai nid arnoch chwi mae'r bai i gyd er hyny. Gan nad beth am hyn, yr wyf am i chwi ddechreu ei ddarllen gyda'r rhifyn hwn. O hyn allan bydd ynddo golofn at eich gwasanaeth chwi yn unig, ac yr wyf am eich helpu i wneyd y golofn hon mor ddyddorol ag y bydd bosibl. Gellwch gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:—(1) Anfonwch ambell hanesyn neu chwedl fer, heb fod dros 200 o eiriau, os yn bosibl. Os mai cyfieithiad fydd, dywedwch o ba le yr

ydych wedi cael y dernyn (2) Bydd Cystadleuaethau bron yn fisol, a rhoddir gwobrwyon i'r goreu. Gobeithio y bydd i nifer luosog o honoch wneyd eich goreu i'w henill. (3) Os bydd genych ofyniad ag y carech gael gwybodaeth yn ei gylch anfonwch ef i fewn. Ysgrifenwch ar un tu i'r ddalen, mewn llawysgrifen eglur, ac mewn iaith mor gywir ag y medroch. Gwnaf eich cynorthwyo yn yr olaf pan fydd eisiau. Gobeithio y caf allan yn fuan fod y golofn yn dderbyniol genych.

GOLYGYDD.

ARWYDDAIR.—"Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni."

Achwynwyd gan ddyn ieuanc unwaith wrth Daniel Webster, yr Americanwr enwog, fod yr alwedigaeth gyfreithiol yn llawn iawn. "Ddyn ieuanc," meddai Webster, mewn ateb, "mae digon o le ar y *top*." Mae hyn yn wir am bob galwedigaeth. Mae y rhan fwyaf o honoch eto yn yr ysgol, ac yr ydych eisioes yn ddiau yn dechreu meddwl pa alwedigaeth a ddewiswch, ac ar ol gwneyd eich dewisiad, byddwch am fod yn llwyddianus yn eich galwedigaeth. Dysgwch y geiriau uchod o'r Beibl yn drwyadl, meddyliwch am danynt yn aml, gwnewch hwynt yn reol sefydlog eich bywyd, a hwy a'ch arweiniant ar hyd ffordd llwyddiant. Y geiriau uchod fyddant arwyddair y golofn hon.

Yr wyf yn bwriadu rhoi ychydig o hanes mebyd dynion enwog yn awr ac eilwaith,—yn fwyaf neillduol, dynion sydd wedi enill enwogrwydd er gwaethaf anhawsderau. Y cyntaf gaf ddwyn i'ch sylw yw

THEODORE PARKER.

Un o bregethwyr mwyaf enwog yr Undodiaïd yn America oedd Theodore Parker. Ganwyd ef yn Lexington, gerllaw Boston, yn 1810. Yr oedd ei rieni yn byw ar fferm fechan, ac yr oeddynt yn dlawd. Dyn o dymer addfwyn oedd ei dad, a gweithgar; ac yr oedd ei fam yn ddoeth a da, a gofalus am ei phlant. Dygodd hwy i fyny i ofni gwneyd drwg, ac i garu gwneyd daioni.

Theodore oedd yr ieuengaf o'r plant, ac anwyl iawn oedd gan yr holl deulu, yn enwedig gan ei fam. Ac yr oedd yntau yn hoff iawn o honi hithau, ac yn ei dilyn i bob man. Adroddir yr hanesyn a ganlyn am dano pan oedd yn ieuanc iawn. Yr oedd allan yn y maes un dydd, fel y carai fod, a gwelodd grwban. [A fedr rhywun o honoch ddyweyd beth yw crwban?] Aeth ato, cododd y pren oedd yn ei law i'w daro, ond cyn iddo adael y pren i ddisgyn ar y creadur diniwed, tybiodd iddo glywed llais yn dyweyd wrtho, "mae'n *wrong*." Taflodd y pren o'i law, rhedodd at ei fam, a gofynodd iddi beth ydoedd. Dywedodd hithau fod "rhai yn ei alw yn gydwybod, ond ei bod hi yn dewis ei alw yn lais Duw yn enaid dyn." Dywedodd wrtho yn mhellach, os gwrandawai ar y llais trwy ei oes, y gwnai ei arwain ar hyd y llwybr iawn bob amser. A gellir dyweyd ei fod wedi gwrando arno.

Pan yn chwech oed, anfonwyd ef i ysgol yn y pentref gerllaw. Bu yn hon ddwy flynedd. Pan yn wyth oed bu raid iddo aros gartref ar y fferm yn ystod yr haf, a chai fyned i'r ysgol am ychydig fisoedd yn y gauaf. Ond hyd yn nod pan oedd gartref gwnai ddefnydd da o'i amser. Cai fenthyg llyfrau gan ei athraw, a threuliai bob munyd a allai gael i'w darllen. Parhaodd hyn hyd yr oedd yn 16 oed.

Yr oedd un llyfr ag y dymunai fod yn berchen arno, sef Geiriadur Lladin, ond nid oedd arian ganddo i'w brynu. Beth wnaeth? Aeth allan i'r meusydd i gasglu llysi duon bach, ac yna aeth a hwy i Boston i'w gwerthu, a llwyddodd felly gael digon i brynu y llyfr. Hwn oedd y

llyfr cyntaf a brynodd,—dechreu y llyfrgell fawr a gasglodd ar ol hyny.

Pan yn 16 oed, anfonwyd ef i ysgol yn Lexington. Bu yno am ddwy flynedd, ac yna, er cael arian i gadw ei hun yn yr ysgol yn mhellach dechreuodd yntau gadw ysgol yn ystod y gauaf.

O'r diwedd daeth yr adeg i benderfynu beth oedd Theodore i fod. Ei ddymuniad ef oedd bod yn bregethwr, ond yr oedd ei rieni yn rhy dlawd i'w gynal yn y Coleg ; ond, lle mae ewyllys mae ffordd, medd y ddiareb. Un dydd, gofynodd Theodore i'w dad am ganiatad i fyned i Boston, yr hyn a gafodd. Ni ddywedodd wrtho, er hyny, beth oedd ei neges. Pan ddychwelodd y noson hono, yr oedd ei dad yn cysgu. Aeth ato yn union, a dywedodd—

"Nhad, yr wyf wedi pasio'r arholiad, ac wedi cael fy nerbyn i Goleg Harvard.

Synodd ei dad, ac atebodd,—

"Theodore, nis gallaf dy gynal yno."

Gwelodd Theodore yr anhawsder hwn fel ei dad, a dywedodd wrtho sut oedd yn bwriadu gwneyd. Gweithiodd am ychydig ar y fferm ; ond yn fuan cafodd le fel athraw mewn ysgol yn Boston, ond ychydig o arian gai yno, a phenderfynodd agor ysgol ei hun mewn pentref gerllaw Boston. Yn fuan llanwyd yr ysgoldy, a daeth bob yn dipyn yn berchen ar ddigon o arian i'w alluogi i fyned i Goleg Harvard, lle yr arhosodd ddwy flynedd a thri mis.

Daeth Theodore Parker ar ol hyn yn un o ddynion mwyaf enwog America. Bu farw yn 1860, yn 50 oed.

Rhoddaf hanes Cymro y tro nesaf —Iolo Morganwg.

YR ADRAN GYSTADLEUOL.

A.—Rhoddir gwobrau (cyntaf, ail, a thrydedd) am ateb yn oreu y nifer fwyaf o'r gofyniadau a roddir bob mis, am y chwech mis cyntaf. Yr atebion i'w hanfon i'r Golygydd cyn diwedd pob mis, wedi eu hysgrifenu ar un tu i'r ddalen, ac yn dwyn ffugenwau yn unig,—pob ymgeisydd i ddefnyddio yr un ffugenw yn fisol. Rhaid i'r atebion fod mor fyr ag y bydd bosibl.

Y Gofyniadau am Ionawr.

(1) Pa bryd y defnyddiodd yr Iesu y geiriau, "y mae fy enaid yn athrist hyd angau"?

(2) Y desgrifiad goreu, yn iaith yr ymgeisydd ei hun, o droedigaeth Paul.

(3) Gan bwy, a pha bryd, y defnyddiwyd y frawddeg a ganlyn :—"Heddyw, trwy ras Duw, ni a gyneuwn y fath ganwyll yn Lloegr, yr hon, ni a hyderwn, nas diffoddir byth."

B.—Rhoddir llyfr i'r un a anfono i fewn yr ystori fer oreu, addas i ymddangos yn Ngholofn y Plant. [Rhaid iddi beidio bod dros 200 o eiriau, ac i fod mewn llaw erbyn Chwefror yr 8fed.]

Nodyn.—Pob gohebiaeth ar gyfer y golofn hon i'w hanfon i'r *Parch. D. Evans, Cribyn, Llanybyther, R.S.O.*

MARWGOFION.

HYDREF 6ed, yn 69 oed, Hannah, gwraig y Cadben W. Davies, Rhydowenfach, ger Llandyssul. Fel mae yr hen drigolion yn myn'd o un i un, mae dyffryn anwyl y Clettwr yn myned yn fwy dieithr o flwyddyn i flwyddyn i hen frodorion oedd yn gynefin ag e' ryw ddeugain mlynedd yn ol. Dyma ddolen arall yn yr hen gysylltiadau wedi ei dryllio gan angeu. Mae gan yr ysgrifenydd adgofion melus a chysegredig am y

teulu y perthynai Mrs. Davies iddo, —teulu y Siop, Rhydowen. Mae yr olaf ohonynt yn awr wedi ein gadael. Yr oedd yn perthyn i'r teulu ei nodweddion neilldual, nodweddion ag mae perygl i golli gafael ynddynt yn yr oes yma. Yn un peth, yr oedd crefydd a phethau crefydd yn sylweddau amlwg yn y bywyd teuluaidd. Nid oedd yn bwnc i'w daflu o'r neilldu, heb son am dano ond ychydig ar ddydd Sul. Ond yr oedd yn grefydd iachus, resymol, yn rhoddi ei lle priodol i ddyledswyddau y bywyd hwn, yn gystal ac i hawliau uwch y natur ysprydol. Cymerai y teulu ddyddordeb neilldual yn yr achos yn Llwynrhydowen yn ei holl agweddau, ac ymddangosai fel pe byddai eu bywyd beunyddiol yn ymffurffo oddiamgylch y canolbwynt hwnw. Yr oedd yr Ysgol Sul yn faes neilldual i'w hymdrechion, ac yr oeddent hwy yn eu lle bob Sul gan nad pwy fuasai yn absenol. Mae lle i ofni fod myn'd i'r cwrdd ac i'r ysgol yn dreth ar lawer o'n pobl ni yn y dyddiau hyn. Ant ambell waith i'r gwasanaeth fel *compliment*, talant at y weinidogaeth, a dyna'r cwbl. Maent yn debyg i'r Ffrancwr hwnw yn myned i'r offeren (*mass*) yn yr eglwys, yn gadael ei gerdyn a'i enw arno ar yr allor, ac yna allan ag e' ar ol ei bleserau. Ond i deulu y Siop yr oedd y cwrdd a'r ysgol, a'r achos i gyd, nid yn unig yn ddyledswydd, ond yn bleser ac yn hyfrydwch. Haf a gauaf, teg a garw, hawddfyd ac adfyd, (a bu yn dymhor o adfyd dygn ar eglwys y Llwyn ar un adeg) yr oedd eu calon yn gystal a'u dwylaw gyda'r gwaith da. Yr oedd Mrs. Davies yn meddu ar y nodweddion teuluaidd hyn mewn modd arbenig. Yr oedd yn dawel a hynaws ei hyspryd, byth yn dweyd ryw lawer, ond ar adegau neilldual, mewn cwmni cydnaws; lleiaf y trwst, dyfnaf y rhyd. Os nad oedd yn hyawdl a a thoreithiog yn ei siarad, meddyliai yn ddwfn, carai yn ddwfn, ac yr oedd meddwl a chariad yn ffrwythlawn mewn pob ymdrech ddaionus yn y cylch ag y troai ynddo. Mae'r cylch hwnw erbyn hyn wedi ei newid fel y meddyliwn ni am gylch o uwch, ond nis gall ei phriod, ac nis gallwn ninau lai na gofidio fod ei sedd yn wag yn y teulu, a'r presenoldeb tawel a hynaws hwnw wedi ei symud ymaith, byth i ddychwelyd mwy. Duw pob gras a phob dyddanwch fyddo'n nodded i'w hanwyl briod yn ei unigedd, a rhodded i'w pherthynasau ieuainc nerth i rodio yn ffordd y teulu, ac efelychu ei rinweddau. Cymerodd yr angladd le Hydref 9fed. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar; yn Nghapel y Fadfa gan y Parch. W. James, Brynhyvryd, ac yn y fynwent, wrth y bedd, gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca. Yn Llwynrhydowen, dydd Sul, Hydref 28ain, mewn gwasanaeth coffadwriaethol, pregethwyd i dorf fawr o gyfeillion a chymydogion yr ymadawedig gan y Parch. W. James, oddiar y geiriau hyny yn Esaiah, "Megis deilen y syrthiasom ni oll."

TACHWEDD 16, o'r darfodedigaeth, William Jones (Wilson), mab i'r diweddar Stephen a Rachel Jones, Pantygronwy, Ystrad, yn 45 mlwydd oed. Bu yn nychu am tua blwyddyn o amser, a gorphenodd ei yrfa ddaearol ar y dydd uchod, yn nhŷ ei gyfnither, yn Highmead Arms, Llanybyther, lle y gweinyddwyd arno yn dyner a gofalus oddiar y dydd y daeth yno i aros hyd ei ddydd olaf, ac y mae hyny yn glod nid bychan iddynt fel teulu, ac i'w ddarpar-wraig am ei hymlyniad wrtho a'i gwasanaeth iddo yn nyddiau ei adfyd a'i gystudd. Siopwr ydoedd o ran ei alwedigaeth: treuliodd ei amser fel egwyddorwas gyda'r diweddar David Rees, Eurfaen Hall, Llanbedr, ac wedi gorphen ei amser yno aeth allan i ferw y byd masnachol, yn Morganwg, yn laslanc cydmarol ddibrofiad. Ond wedi ychwanegu at ei brofiad a'i wybodaeth fasnachol am ychydig amser mewn dau neu dri o wahanol fanau, aeth i fasnachdy mawr Mr. Ben Evans, Abertawe, ac yno mwy y treuliodd y rhan fwyaf o'i amser, hyd pan ei goddiweddwyd gan yr

afiechyd a fu'n angeu iddo, ac nid gormod yw dywedyd ei fod yn un o'r rhai mwyaf parchus yn y lle, a hyny ar gyfrif ei aml ragoriaethau. Nid rhwydd iawn myned yn agos ato a'i adnabod, ond wedi ei adnabod nid oedd yn bosibl llai na'i barchu a'i edmygu. Yr oedd yn un o bleidwyr mwyaf ffyddlon yr achos Undodaidd yn Abertawe. Gadawodd un brawd mewn galar, heblaw perthynasau eraill. Gwasanaethwyd ar ddydd ei angladd gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. John Davies, Alltyplacca. Claddwyd ei weddillion yn ochr ei rieni yn mynwent Ystrad.

COLOFN Y GOLYGWYR.

RHIFYN CHWEFROR.—Yn y rhifyn nesaf bydd Erthyglau dyddorol gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, "Deugain mlynedd yn y Weinidogaeth"; Gwilym Evans, B.A., "Francis y Sant o Assisi"; y Parch. J. M. Lloyd Thomas, Nottingham, "Yr Hen a'r Newydd"; y Parch. E. D. P. Evans, Kidderminster, "Cenhedloedd newydd Ewrop"—y cyntaf o chwech o Erthyglau ar "Enillion y Ganrif," yn nghyd ag amryw eraill.

AT OHEBWYR.—Diolchwn am ddymuniadau da y cyfeillion sydd wedi ysgrifenu atom, ac am eu haddewidion o gynorthwy. Sicrhawn hwynt y gwnawn ni ein goreu i lanw ein swydd bwysig. Gobeithio, er hyny, y byddant yn dyner wrthym ar y dechreu; gyda phrofiad gwnawn y gwaith yn fwy perffaith, ni a obeithiwn.

O ddiffyg gofod, gorfodwyd ni i adael allan amryw Farwgofion, Nodiadau ac Hanesion o'r rhifyn hwn. Cânt ymddangos yn ein nesaf.

IOLO MORGANWG.—Ceisia cyfaill genym i ofyn i'n darllenwyr, a oes gan un o honynt gyfrol o "Salmau Iolo" ag y gallant ei gwerthu. Anfoner at y Golygydd.

CRWTH DYFFRYN CLETTWR.—I gyfarfod a'r holi parhaus sydd am y "Crwth" fe fwriedir myned i'r Wasg, a dwyn allan argraffiad newydd gydag ychwanegiadau lluosog mor gynted ag y ceir enwau 500 am dano. Rhoddir saith am bris chwech, pymtheg am bris deuddeg; ac os ceir cefnogaeth digonol cyhoeddir rhestr o'r Tanysgrifwyr. Anfoner pob Archebion at y Parch. R. J. Jones, Aberdar.

GOHEBIAETHAU, &c.—Anfoner pob gohebiaeth i'r Golygwyr, a'r Farddoniaeth i T. G. Thomas, B.Sc., County School, Merthyr Tydfil. Pob Archebion i'w hanfon i Arthur Thomas, Llandyssul. Danfonir Chwech copi ac ychwaneg, yn ddidraul drwy y *Post*.

TRYSORFA GYCHWYN Y GYFRES NEWYDD.—Cydnabyddwyd o'r blaen, £18 : 16 : 6. Derbyniwyd oddiar hyny gyfanswm o £15 : 14 : 9. Cyfanswm £34 : 11 : 3.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae cyfanswm y Casgliadau oddiwrth saith ysgol yn £2 : 11 : 3. Oherwydd diffyg gofod ymddengys yr holl fanylion o dan y ddau ben yn y nesaf. Carem glywed oddiwrth y gweddill o'r ysgolion erbyn hyny. Mae'r *Drysorfa Gychwyn* hefyd yn agored o hyd. Bydd help llaw yn dderbyniol iawn.

W. J.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.